- (2) Os yw'r Ombwdsmon o'r farn bod hynny'n briodol, rhaid i'r Ombwdsmon roi gwybod i'r Comisiynydd perthnasol am y mater cysylltiedig.
- (3) Os yw'r Ombwdsmon o'r farn bod y mater yn fater y mae gan yr Ombwdsmon hawl i gynnal ymchwiliad iddo (y "mater Ombwdsmon"), rhaid i'r Ombwdsmon hefyd, os yw'r Ombwdsmon o'r farn bod hynny'n briodol –
 - (a) rhoi gwybod i'r Comisiynydd perthnasol am gynigion yr Ombwdsmon ar gyfer cynnal ymchwiliad, a
 - (b) ymgynghori â'r Comisiynydd perthnasol am y cynigion hynny.
- (4) Os yw'r Ombwdsmon a'r Comisiynydd perthnasol o'r farn bod ganddynt hawl i ymchwilio, yn y drefn honno, y mater Ombwdsmon a'r mater cysylltiedig, caniateir iddynt –
 - (a) cydweithredu â'i gilydd yn yr ymchwiliad ar wahân i bob un o'r materion hynny,
 - (b) gweithredu gyda'i gilydd wrth ymchwilio i'r materion hynny, ac
 - (c) paratoi a chyhoeddi adroddiad ar y cyd sy'n cynnwys eu casgliadau unigol o ran y materion y maent ill dau wedi ymchwilio iddynt.
- (5) Os yw'r Ombwdsmon o'r farn –
 - (a) nad yw'r mater yn un y mae gan yr Ombwdsmon hawl i gynnal ymchwiliad iddo, a
 - (b) ei bod yn briodol gwneud hynny,
 rhaid i'r Ombwdsmon roi gwybod i'r person a gychwynnodd y gŵyn (os oes un) ynghylch sut i atgyfeirio'r mater cysylltiedig at y Comisiynydd perthnasol.

68 Gweithio gydag Archwilydd Cyffredinol Cymru

- (1) Os yw'r Ombwdsmon o'r farn bod hynny'n briodol, rhaid i'r Ombwdsmon –
 - (a) rhoi gwybod i Archwilydd Cyffredinol Cymru am gynigion yr Ombwdsmon ar gyfer cynnal ymchwiliad, a
 - (b) ymgynghori ag Archwilydd Cyffredinol Cymru ynghylch y dull mwyaf effeithiol o gynnal ymchwiliad.

(b) varying a reference to a type or description of specified person for the time being contained in that subsection.

(7) No regulations are to be made under subsection (6) unless a draft of the statutory instrument containing them has been laid before, and approved by a resolution of, the Assembly.

67 Working collaboratively with Commissioners

(1) This section applies if it appears to the Ombudsman that—

(a) a complaint, or

(b) a matter the Ombudsman is considering investigating under section 4 or 44, relates to or raises a matter which could be the subject of an investigation by the Children’s Commissioner for Wales, the Commissioner for Older People in Wales or the Welsh Language Commissioner (the “connected matter”).

(2) If the Ombudsman considers it appropriate, the Ombudsman must inform the relevant Commissioner about the connected matter.

(3) If the Ombudsman considers that the matter is a matter into which the Ombudsman is entitled to conduct an investigation (the “Ombudsman matter”), the Ombudsman must also, if the Ombudsman considers it appropriate—

(a) inform the relevant Commissioner about the Ombudsman’s proposals for conducting an investigation, and

(b) consult the relevant Commissioner about those proposals.

(4) If the Ombudsman and the relevant Commissioner consider that they are entitled to investigate, respectively, the Ombudsman matter and the connected matter, they may—

(a) co-operate with each other in the separate investigation of each of those matters,

(b) act together in the investigation of those matters, and

(c) prepare and publish a joint report containing their respective conclusions in relation to the matters they have each investigated.

(5) If the Ombudsman considers—

(a) that the matter is not a matter into which the Ombudsman is entitled to conduct an investigation, and

(b) that it is appropriate to do so,

the Ombudsman must inform the person who initiated the complaint (if any) about how to secure the referral of the connected matter to the relevant Commissioner.

68 Working with the Auditor General for Wales

(1) If the Ombudsman considers it appropriate, the Ombudsman must—

(a) inform the Auditor General for Wales about the Ombudsman’s proposals for conducting an investigation, and

(b) consult the Auditor General for Wales with regard to the most effective way of conducting an investigation.

- (2) Os yw'r Ombwdsmon yn ymgynghori ag Archwilydd Cyffredinol Cymru o dan yr adran hon, caiff yr Ombwdsmon ac Archwilydd Cyffredinol Cymru –
- (a) cydweithredu â'i gilydd mewn perthynas â'r mater y mae'r ymchwiliad yn ymwneud ag ef,
 - (b) cynnal ymchwiliad ar y cyd i'r mater, ac
 - (c) paratoi a chyhoeddi adroddiad ar y cyd mewn perthynas â'r ymchwiliad.

Datgelu

69 Datgelu gwybodaeth

- (1) Yr wybodaeth y mae'r adran hon yn gymwys iddi yw –
- (a) gwybodaeth y mae'r Ombwdsmon, aelod o staff yr Ombwdsmon neu berson arall sy'n gweithredu ar ran yr Ombwdsmon neu'n cynorthwyo'r Ombwdsmon, yn ei chael i gyflawni swyddogaethau'r Ombwdsmon –
 - (i) wrth benderfynu pa un ai i gychwyn ymchwiliad,
 - (ii) yn ystod ymchwiliad,
 - (iii) wrth ddatrys mater o dan adran 6 neu 46, neu
 - (iv) mewn cysylltiad â hysbysiad a gafwyd o dan adran 26 neu 57;
 - (b) gwybodaeth a gafwyd gan ombwdsmon a grybwyllir yn adran 65(7) yn rhinwedd unrhyw ddarpariaeth yn adran 65 neu ddarpariaeth gyfatebol mewn deddfiad sy'n ymwneud ag unrhyw un neu ragor o'r ombwdsmy'n hynny;
 - (c) gwybodaeth a gafwyd gan berson a bennir yn adran 66(2) yn rhinwedd unrhyw ddarpariaeth yn adran 66 neu 67 neu ddarpariaeth gyfatebol mewn deddfiad sy'n ymwneud ag unrhyw un neu ragor o'r personau hynny a bennir;
 - (d) gwybodaeth a gafwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn rhinwedd adran 68 o'r Ddeddf hon neu adran 29A o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 (dccc 3);
 - (e) gwybodaeth a gafwyd gan y Comisiynydd Gwybodaeth yn rhinwedd adran 76 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (p.36) (datgeliad rhwng y Comisiynydd Gwybodaeth ac ombwdsmy'n).
- (2) Ni chaniateir datgelu'r wybodaeth ac eithrio –
- (a) at ddibenion penderfynu pa un ai i gychwyn ymchwiliad;
 - (b) at ddibenion ymchwiliad;
 - (c) at ddiben unrhyw un neu ragor o swyddogaethau Archwilydd Cyffredinol Cymru;
 - (d) at ddibenion datrys cwyn o dan adran 6 neu 46;
 - (e) at ddibenion datganiad neu adroddiad a wneir mewn perthynas â chwyn neu ymchwiliad;
 - (f) at ddibenion unrhyw ddarpariaeth yn adran 65, 66, 67 neu 68;
 - (g) at ddibenion achosion llys ar gyfer –

- (2) If the Ombudsman consults the Auditor General for Wales under this section, the Ombudsman and the Auditor General for Wales may –
- (a) co-operate with each other in relation to the matter to which the investigation relates,
 - (b) conduct a joint investigation into the matter, and
 - (c) prepare and publish a joint report in relation to the investigation.

Disclosure

69 Disclosure of information

- (1) The information to which this section applies is –
- (a) information obtained by the Ombudsman, a member of the Ombudsman's staff or another person acting on the Ombudsman's behalf or assisting the Ombudsman in the discharge of the Ombudsman's functions –
 - (i) in deciding whether to begin an investigation,
 - (ii) in the course of an investigation,
 - (iii) in resolving a matter under section 6 or 46, or
 - (iv) in connection with a notification received under section 26 or 57;
 - (b) information obtained from an ombudsman mentioned in section 65(7) by virtue of any provision of section 65 or a corresponding provision in an enactment relating to any of those ombudsmen;
 - (c) information obtained from a specified person in section 66(2) by virtue of any provision of section 66 or 67 or a corresponding provision in an enactment relating to any of those specified persons;
 - (d) information obtained from the Auditor General for Wales by virtue of section 68 of this Act or section 29A of the Public Audit (Wales) Act 2013 (anaw 3);
 - (e) information obtained from the Information Commissioner by virtue of section 76 of the Freedom of Information Act 2000 (c.36) (disclosure between Information Commissioner and ombudsmen).
- (2) The information must not be disclosed except –
- (a) for the purposes of deciding whether to begin an investigation;
 - (b) for the purposes of an investigation;
 - (c) for the purpose of any function of the Auditor General for Wales;
 - (d) for the purposes of resolving a complaint under section 6 or 46;
 - (e) for the purposes of a statement or report made in relation to a complaint or investigation;
 - (f) for the purposes of any provision of section 65, 66, 67 or 68;
 - (g) for the purposes of proceedings for –

- (i) trosedd o dan Ddeddfau Cyfrinachau Swyddogol 1911 (p.28) i 1989 (p.6) yr honnir iddi gael ei chyflawni gan yr Ombwdsmon, aelod o staff yr Ombwdsmon neu berson arall sy'n gweithredu ar ran yr Ombwdsmon neu'n cynorthwyo'r Ombwdsmon i gyflawni unrhyw un neu ragor o swyddogaethau'r Ombwdsmon;
 - (ii) trosedd o dyngu anudon yr honnir iddi gael ei chyflawni yn ystod ymchwiliad;
 - (h) at ddibenion ymchwiliad gyda golwg ar gychwyn yr achosion llys a grybwyllir ym mharagraff (g);
 - (i) at ddibenion achosion llys o dan adran 20 neu 54;
 - (j) yn achos gwybodaeth i'r perwyl bod person yn debygol o fod yn fygythiad i iechyd neu ddiogelwch un neu ragor o bersonau, i unrhyw berson y mae'r Ombwdsmon yn credu y dylid ei datgelu er budd y cyhoedd;
 - (k) yn achos gwybodaeth y mae is-adran (3) yn gymwys iddi, i'r Comisiynydd Gwybodaeth;
 - (l) at ddibenion swyddogaethau'r Ombwdsmon o dan Benodau 3 a 4 o Ran 3 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (p.22).
- (3) Mae'r is-adran hon yn gymwys i wybodaeth os yw'n ymddangos i'r Ombwdsmon ei bod yn ymwneud â'r canlynol –
- (a) mater y gallai'r Comisiynydd Gwybodaeth, mewn perthynas ag ef, arfer pŵer a roddir mewn deddfiad a grybwyllir yn is-adran (4), neu
 - (b) cyflawni trosedd a grybwyllir yn is-adran (6).
- (4) Y deddfiadau yw –
- (a) adrannau 142 i 154, 160 i 164 neu 174 i 176 o Ddeddf Diogelu Data 2018 (p.12) (darpariaethau penodol yn ymwneud â gorfodi), neu Atodlen 15 i'r Ddeddf honno;
 - (b) adran 48 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (p.36) (argymhellion arfer);
 - (c) Rhan 4 o'r Ddeddf honno.
- (5) Mae is-adran (4)(a) yn cael effaith fel pe bai'r materion y mae'n cyfeirio atynt yn cynnwys mater y gallai'r Comisiynydd Gwybodaeth arfer, mewn perthynas ag ef, bŵer a roddir gan ddarpariaeth yn Rhan 5 o Ddeddf Diogelu Data 1998 (p.29), fel y mae'n cael effaith yn rhinwedd Atodlen 20 i Ddeddf Diogelu Data 2018 (p.12).
- (6) Y troseddau yw'r rhai o dan –
- (a) darpariaeth yn Neddf Diogelu Data 2018 (p.12) heblaw paragraff 15 o Atodlen 15 i'r Ddeddf honno (rhwystro gweithredu gwarant);
 - (b) adran 77 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (p.36) (y drosedd o newid etc cofnodion gyda'r bwriad o atal datgelu).
- (7) Ni chaniateir galw unrhyw berson i roi tystiolaeth mewn unrhyw achos llys (heblaw achosion a grybwyllir yn is-adran (2)) o wybodaeth a gafwyd gan y person hwnnw fel y crybwyllir yn is-adran (1)(a) neu (b).

- (i) an offence under the Official Secrets Acts 1911 (c.28) to 1989 (c.6) alleged to have been committed by the Ombudsman, a member of the Ombudsman's staff or other person acting on the Ombudsman's behalf or assisting the Ombudsman in the discharge of any of the Ombudsman's functions;
 - (ii) an offence of perjury alleged to have been committed in the course of an investigation;
 - (h) for the purposes of an inquiry with a view to the taking of proceedings mentioned in paragraph (g);
 - (i) for the purpose of proceedings under section 20 or 54;
 - (j) in the case of information to the effect that a person is likely to constitute a threat to the health or safety of one or more persons, to any person to whom the Ombudsman thinks it should be disclosed in the public interest;
 - (k) in the case of information to which subsection (3) applies, to the Information Commissioner;
 - (l) for the purposes of the Ombudsman's functions under Chapters 3 and 4 of Part 3 of the Local Government Act 2000 (c.22).
- (3) This subsection applies to information if it appears to the Ombudsman to relate to—
- (a) a matter in respect of which the Information Commissioner could exercise a power conferred by an enactment mentioned in subsection (4), or
 - (b) the commission of an offence mentioned in subsection (6).
- (4) The enactments are—
- (a) sections 142 to 154, 160 to 164 or 174 to 176 of, or Schedule 15 to, the Data Protection Act 2018 (c.12) (certain provisions relating to enforcement);
 - (b) section 48 of the Freedom of Information Act 2000 (c.36) (practice recommendations);
 - (c) Part 4 of that Act.
- (5) Subsection (4)(a) has effect as if the matters to which it refers include a matter in respect of which the Information Commissioner could exercise a power conferred by a provision of Part 5 of the Data Protection Act 1998 (c.29), as it has effect by virtue of Schedule 20 to the Data Protection Act 2018 (c.12).
- (6) The offences are those under—
- (a) a provision of the Data Protection Act 2018 (c.12) other than paragraph 15 of Schedule 15 to that Act (obstruction of execution of warrant etc);
 - (b) section 77 of the Freedom of Information Act 2000 (c.36) (offence of altering etc records with intent to prevent disclosure).
- (7) No person may be called upon to give evidence in any proceedings (other than proceedings mentioned in subsection (2)) of information obtained by that person as mentioned in subsection (1)(a) or (b).

70 Datgeliad niweidiol i ddiogelwch Gwladol neu yn groes i fudd y cyhoedd

- (1) Caiff Gweinidog y Goron roi hysbysiad i'r Ombwdsmon o ran—
- (a) unrhyw ddogfen neu wybodaeth a bennir yn yr hysbysiad, neu
 - (b) unrhyw ddosbarth o ddogfen neu wybodaeth a bennir felly,
- y byddai datgelu'r ddogfen neu'r wybodaeth honno, neu ddogfennau neu wybodaeth o'r un dosbarth, ym marn y Gweinidog, yn niweidiol i ddiogelwch Gwladol neu fel arall yn groes i fudd y cyhoedd.
- (2) Os cyflwynir hysbysiad o dan is-adran (1), nid oes dim yn y Ddeddf hon i'w ddehongli mewn modd sy'n awdurdodi neu'n ei gwneud yn ofynnol i'r Ombwdsmon, aelod o staff yr Ombwdsmon neu berson arall sy'n gweithredu ar ran yr Ombwdsmon neu'n cynorthwyo'r Ombwdsmon i gyflawni swyddogaethau'r Ombwdsmon, ddatgelu i unrhyw berson neu at unrhyw ddiben unrhyw ddogfen neu wybodaeth, neu ddosbarth o ddogfen neu wybodaeth, a bennir yn yr hysbysiad.

71 Diogelu rhag hawliadau difenwi

- (1) At ddibenion y gyfraith ar ddifenwi, mae'r canlynol yn gwbl freintiedig—
- (a) cyhoeddi mater, wrth gyflawni unrhyw un neu ragor o swyddogaethau'r Ombwdsmon o dan y Ddeddf hon, gan yr Ombwdsmon, aelod o staff yr Ombwdsmon neu berson arall sy'n gweithredu ar ran yr Ombwdsmon neu'n cynorthwyo'r Ombwdsmon i gyflawni unrhyw un neu ragor o swyddogaethau'r Ombwdsmon;
 - (b) cyhoeddi mater gan berson wrth gyflawni swyddogaethau o dan—
 - (i) adran 24;
 - (ii) adran 24 fel y'i haddasir gan adran 25;
 - (iii) adrannau 24 a 25 yn yr un modd ag y maent yn gymwys i adroddiadau arbennig (gweler adran 29(6));
 - (c) cyhoeddi mater mewn cysylltiad â chwyn neu ymchwiliad, mewn cyfathrebiadau rhwng—
 - (i) awdurdod rhestredig, aelod neu aelod cyfetholedig o awdurdod rhestredig, swyddog neu aelod o staff awdurdod rhestredig neu berson arall sy'n gweithredu ar ran awdurdod rhestredig neu'n ei gynorthwyo i gyflawni unrhyw un neu ragor o'i swyddogaethau, a
 - (ii) yr Ombwdsmon, aelod o staff yr Ombwdsmon neu berson arall sy'n gweithredu ar ran yr Ombwdsmon neu'n cynorthwyo'r Ombwdsmon i gyflawni unrhyw un neu ragor o swyddogaethau'r Ombwdsmon;
 - (d) cyhoeddi mater mewn cysylltiad â chwyn neu ymchwiliad, mewn cyfathrebiadau rhwng—
 - (i) darparwr cartref gofal, darparwr gofal cartref neu ddarparwr gofal lliniarol annibynnol, swyddog neu aelod o staff darparwr o'r fath neu berson arall sy'n gweithredu ar ran darparwr o'r fath neu'n ei gynorthwyo i gyflawni unrhyw un neu ragor o'i swyddogaethau, a

70 Disclosure prejudicial to safety of State or contrary to public interest

- (1) A Minister of the Crown may give notice to the Ombudsman with respect to –
- (a) any document or information specified in the notice, or
 - (b) any class of document or information so specified,

that, in the opinion of the Minister, the disclosure of that document or information, or of documents or information of that class, would be prejudicial to the safety of the State or otherwise contrary to the public interest.

- (2) If a notice is given under subsection (1), nothing in this Act is to be construed as authorising or requiring the Ombudsman, a member of the Ombudsman's staff or another person acting on the Ombudsman's behalf or assisting the Ombudsman in the discharge of the Ombudsman's functions to disclose to any person or for any purpose any document or information, or class of document or information, specified in the notice.

71 Protection from defamation claims

- (1) For the purposes of the law of defamation, the following are absolutely privileged –
- (a) the publication of a matter, in the discharge of any of the Ombudsman's functions under this Act, by the Ombudsman, a member of the Ombudsman's staff or another person acting on the Ombudsman's behalf or assisting the Ombudsman in the discharge of any of the Ombudsman's functions;
 - (b) the publication of a matter by a person in the discharge of functions under –
 - (i) section 24;
 - (ii) section 24 as modified by section 25;
 - (iii) sections 24 and 25 as they apply to special reports (see section 29(6));
 - (c) the publication of a matter in connection with a complaint or an investigation, in communications between –
 - (i) a listed authority, a member or co-opted member of a listed authority, an officer or member of the staff of a listed authority or another person acting on behalf of a listed authority or assisting it in the discharge of any of its functions, and
 - (ii) the Ombudsman, a member of the Ombudsman's staff or another person acting on the Ombudsman's behalf or assisting the Ombudsman in the discharge of any of the Ombudsman's functions;
 - (d) the publication of a matter in connection with a complaint or an investigation, in communications between –
 - (i) a care home provider, domiciliary care provider or independent palliative care provider, an officer or member of staff of such a provider or another person acting on behalf of such a provider or assisting it in the discharge of any of its functions, and

- (ii) yr Ombwdsmon, aelod o staff yr Ombwdsmon neu berson arall sy'n gweithredu ar ran yr Ombwdsmon neu'n cynorthwyo'r Ombwdsmon i gyflawni unrhyw un neu ragor o swyddogaethau'r Ombwdsmon;
- (e) cyhoeddi mater mewn cysylltiad â chŵyn neu ymchwiliad, mewn cyfathrebiadau rhwng person ac Aelod Cynulliad;
- (f) cyhoeddi mater mewn cysylltiad â chŵyn a wnaed neu a atgyfeiriwyd (neu sydd i'w gwneud neu ei hatgyfeirio) gan berson neu ar ran person at yr Ombwdsmon o dan y Ddeddf hon, mewn cyfathrebiadau rhwng –
 - (i) y person, a
 - (ii) yr Ombwdsmon, aelod o staff yr Ombwdsmon neu berson arall sy'n gweithredu ar ran yr Ombwdsmon neu'n cynorthwyo'r Ombwdsmon i gyflawni unrhyw un neu ragor o swyddogaethau'r Ombwdsmon.
- (2) At ddibenion is-adran (1)(d)(i) mae person yn swyddog i ddarparwr os oes gan y person reolaeth dros ddarparwr nad yw'n unigolyn neu faterion darparwr o'r fath, neu os yw'r person yn rheoli darparwr nad yw'n unigolyn neu faterion darparwr o'r fath.
- (3) Yn yr adran hon, mae cyfeiriad at faterion sy'n ymwneud ag ymchwiliad yn cynnwys materion sy'n ymwneud â phenderfyniad yr Ombwdsmon pa un ai i ymchwilio ai peidio.

RHAN 7

AMRYWIOL A CHYFFREDINOL

Safonau'r Gymraeg

72 **Awdurdodiad i roi hysbysiad cydymffurfio i'r Ombwdsmon mewn perthynas â safonau'r Gymraeg**

- (1) Yn Atodlen 6 i Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 2) 2016 (O.S. 2016/182 (Cy.76)) ("Rheoliadau 2016"), mewnosoder yn y lle priodol –

"Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ("The Public Services Ombudsman for Wales")".
- (2) Nid yw'r diwygiad a wneir gan yr adran hon yn effeithio ar y pŵer i wneud rheoliadau pellach sy'n amrywio neu'n dirymu Rheoliadau 2016.

Adolygiad o'r Ddeddf

73 **Adolygiad o'r Ddeddf**

- (1) Rhaid i'r Cynulliad, cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ddiwedd y cyfnod 5 mlynedd, baratoi a chyhoeddi adroddiad ar weithrediad ac effaith y Ddeddf hon yn ystod y cyfnod 5 mlynedd.
- (2) Caiff y Cynulliad baratoi a chyhoeddi adroddiad ar weithrediad ac effaith y Ddeddf hon ar unrhyw adeg.
- (3) Wrth baratoi adroddiad o dan yr adran hon, rhaid i'r Cynulliad ymgynghori â'r cyfryw bersonau sydd, ym marn y Cynulliad, yn briodol.

- (ii) the Ombudsman, a member of the Ombudsman's staff or another person acting on the Ombudsman's behalf or assisting the Ombudsman in the discharge of any of the Ombudsman's functions;
- (e) the publication of a matter in connection with a complaint or an investigation, in communications between a person and an Assembly member;
- (f) the publication of a matter in connection with a complaint made or referred (or to be made or referred) by or on behalf of a person to the Ombudsman under this Act, in communications between –
 - (i) the person, and
 - (ii) the Ombudsman, a member of the Ombudsman's staff or another person acting on the Ombudsman's behalf or assisting the Ombudsman in the discharge of any of the Ombudsman's functions.
- (2) For the purposes of subsection (1)(d)(i) a person is an officer of a provider if the person has control or management of a provider which is not an individual or the affairs of such a provider.
- (3) In this section, reference to matters in connection with an investigation include matters in connection with the Ombudsman's decision whether to investigate or not.

PART 7

MISCELLANEOUS AND GENERAL

Welsh language standards

72 Authorisation to give compliance notice to the Ombudsman in relation to Welsh language standards

- (1) In Schedule 6 to the Welsh Language Standards (No. 2) Regulations 2016 (S.I 2016/182 (W.76)) ("the 2016 Regulations"), insert in the appropriate place –

"The Public Services Ombudsman for Wales ("Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru")".
- (2) The amendment made by this section does not affect the power to make further regulations amending or revoking the 2016 Regulations.

Review of Act

73 Review of Act

- (1) The Assembly must, as soon as practicable after the end of the 5 year period, prepare and publish a report on the operation and effect of this Act during the 5 year period.
- (2) The Assembly may prepare and publish a report on the operation and effect of this Act at any time.
- (3) In preparing a report under this section, the Assembly must consult such persons as it considers appropriate.

- (4) Yn yr adran hon, ystyr “y cyfnod 5 mlynedd” yw’r cyfnod o 5 mlynedd sy’n dechrau â’r diwrnod y caiff y Ddeddf hon y Cydsyniad Brenhinol.

Cymhwyso Deddf 2005 i ymchwiliadau penodol

74 Ymchwiliadau a gychwynnir cyn y daw adrannau 3, 4, 43 a 44 i rym

- (1) Mae is-adran (2) yn gymwys os yw’r Ombwdsmon wedi cychwyn ymchwiliad i fater cyn y dyddiad y daw adrannau 3, 4, 43 a 44 i rym ac nad yw’r Ombwdsmon wedi penderfynu ar yr ymchwiliad neu nad yw’r mater wedi’i ddatrys erbyn y dyddiad hwnnw.
- (2) Ar y dyddiad hwnnw, ac ar ôl hynny, mae Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 (p.10) yn parhau i fod yn gymwys at ddibenion yr ymchwiliad er gwaethaf darpariaethau eraill y Ddeddf hon.

Cyffredinol

75 Diddymiadau, arbedion a diwygiadau canlyniadol

- (1) Mae Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 (p.10) wedi ei diddymu.
- (2) Ond –
- (a) gweler adran 74 o’r Ddeddf hon (ymchwiliadau a gychwynnir cyn y daw adrannau 3, 4, 43 a 44 o’r Ddeddf hon i rym);
 - (b) nid yw is-adran (1) yn gymwys i –
 - (i) paragraffau 9(4) ac 11(4) o Atodlen 1 i Ddeddf 2005 (sy’n diwygio Deddf Blwydd-daliadau 1972 (p.11)) ac adran 1 o Ddeddf 2005 (i’r graddau y mae’n rhoi effaith i baragraffau 9(4) ac 11(4) o Ddeddf 2005);
 - (ii) Atodlen 4 i Ddeddf 2005 (sy’n diwygio Deddf Llywodraeth Leol 2000 (p.22)) ac adran 35 o Ddeddf 2005 (sy’n rhoi effaith i Atodlen 4 i Ddeddf 2005);
 - (iii) Atodlen 6 i Ddeddf 2005 (diwygiadau canlyniadol) ac adran 39(1) o Ddeddf 2005 (sy’n rhoi effaith i Atodlen 6 i Ddeddf 2005);
 - (iv) y graddau y byddai’n dirymu unrhyw is-ddeddfwriaeth (o fewn ystyr adran 21(1) o Ddeddf Dehongli 1978 (p.30)) a wneir o dan Ddeddf 2005.
- (3) Mae Atodlen 5 (sy’n gwneud diwygiadau canlyniadol i ddeddfwriaeth sylfaenol o ganlyniad i’r Ddeddf hon) yn cael effaith.

76 Swyddogaethau’r Cynulliad

- (1) Caiff y Cynulliad drwy reolau sefydlog wneud darpariaeth ynghylch arfer y swyddogaethau a roddir iddo gan y Ddeddf hon neu oddi tani.
- (2) Mae darpariaeth o’r fath yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, ddirprwyo swyddogaethau i bwyllgor neu is-bwyllgor o’r Cynulliad neu gadeirydd pwyllgor neu is-bwyllgor o’r fath.

- (4) In this section, “the 5 year period” means the period of 5 years beginning with the day this Act receives Royal Assent.

Application of the 2005 Act to certain investigations

74 Investigations commenced before sections 3, 4, 43 and 44 come into force

- (1) Subsection (2) applies if the Ombudsman has commenced an investigation into a matter before the date on which sections 3, 4, 43 and 44 come into force and the investigation has not been determined by the Ombudsman or the matter has not been resolved by that date.
- (2) On and after that date, the Public Services Ombudsman (Wales) Act 2005 (c.10) continues to apply for the purposes of the investigation despite the other provisions of this Act.

General

75 Repeals, savings and consequential amendments

- (1) The Public Services Ombudsman (Wales) Act 2005 (c.10) is repealed.
- (2) But—
- (a) see section 74 of this Act (investigations commenced before sections 3, 4, 43 and 44 of this Act come into force);
 - (b) subsection (1) does not apply to—
 - (i) paragraphs 9(4) and 11(4) of Schedule 1 to the 2005 Act (which amend the Superannuation Act 1972 (c.11)) and section 1 of the 2005 Act (to the extent that it gives effect to paragraphs 9(4) and 11(4) of the 2005 Act);
 - (ii) Schedule 4 to the 2005 Act (which amends the Local Government Act 2000 (c.22)) and section 35 of the 2005 Act (which gives effect to Schedule 4 to the 2005 Act);
 - (iii) Schedule 6 to the 2005 Act (consequential amendments) and section 39(1) of the 2005 Act (which gives effect to Schedule 6 to the 2005 Act);
 - (iv) the extent that it would revoke any subordinate legislation (within the meaning of section 21(1) of the Interpretation Act 1978 (c.30)) made under the 2005 Act.
- (3) Schedule 5 (which makes consequential amendments of primary legislation in consequence of this Act) has effect.

76 Functions of the Assembly

- (1) The Assembly may by standing orders make provision regarding the exercise of the functions conferred upon it by or under this Act.
- (2) Such provision includes, but is not limited to, delegating functions to a committee or sub-committee of the Assembly or the chair of such a committee or sub-committee.

- (3) Ond ni chaniateir i'r Cynunlliad ddirprwyo swyddogaethau a roddir iddo gan y Ddeddf hon neu oddi tani ar wahân i'r swyddogaethau a roddir gan—
- (a) adrannau 73(1), (2) a (3), a
 - (b) paragraffau 5 a 8(1) o Atodlen 1.

77 Cychwyn

- (1) Mae darpariaethau blaenorol y Ddeddf hon, a'r Atodlenni i'r Ddeddf hon, yn dod i rym yn unol â darpariaeth a wneir gan Weinidogion Cymru drwy reoliadau.
- (2) Mae'r adran hon ac adrannau 78 i 82 yn dod i rym ar y diwrnod y caiff y Ddeddf hon y Cydsyniad Brenhinol.
- (3) Caiff rheoliadau o dan is-adran (1)—
 - (a) penodi diwrnodau gwahanol at ddibenion gwahanol;
 - (b) gwneud darpariaeth drosiannol, ddarfodol neu arbed mewn cysylltiad â darpariaeth yn y Ddeddf hon yn dod i rym.

78 Dehongli

- (1) Yn y Ddeddf hon—

mae i "adroddiad arbennig" (*"special report"*) yn Rhan 3 yr ystyr a roddir yn adran 28 ac yn Rhan 5 yr ystyr a roddir yn adran 60;

mae i "adroddiad blynyddol" (*"annual report"*) yr ystyr a roddir ym mharagraff 15 o Atodlen 1;

mae i "adroddiad eithriadol" (*"extraordinary report"*) yr ystyr a roddir ym mharagraff 15 o Atodlen 1;

ystyr "aelod cyfetholedig" (*"co-opted member"*), mewn perthynas ag awdurdod, yw person nad yw'n aelod o'r awdurdod ond sydd—

 - (a) yn aelod o bwyllgor neu is-bwyllgor o'r awdurdod, neu
 - (b) yn aelod o gyd-bwyllgor ac yn cynrychioli'r awdurdod ar gyd-bwyllgor y caiff yr awdurdod ei gynrychioli arno, neu is-bwyllgor i bwyllgor o'r fath,

ac sydd â hawl i bleidleisio ar unrhyw gwestiwn sydd i'w benderfynu mewn cyfarfod o'r pwyllgor neu'r is-bwyllgor;

ystyr "annedd a ariennir yn gyhoeddus" (*"publicly-funded dwelling"*) yw—

 - (a) annedd a ddarparwyd drwy gyfrwng grant o dan—
 - (i) adran 18 o Ddeddf Tai 1996 (p.52) (grant tai cymdeithasol), neu
 - (ii) adran 50 o Ddeddf Tai 1988 (p.50), adran 41 o Ddeddf Cymdeithasau Tai 1985 (p.69), neu adran 29 neu 29A o Ddeddf Tai 1974 (p.44) (grant cymdeithasau tai);
 - (b) annedd a gaffaelwyd drwy warediad gan landlord sector cyhoeddus (o fewn ystyr Rhan 1 o Ddeddf Tai 1996 (p.52));

ystyr "awdurdod lleol yng Nghymru" (*"local authority in Wales"*) yw cyngor sir, cyngor bwrdeistref sirol neu gyngor cymuned yng Nghymru;

- (3) But the Assembly may not delegate functions conferred upon it by or under this Act other than the functions conferred by –
- (a) sections 73(1), (2) and (3), and
 - (b) paragraphs 5 and 8(1) of Schedule 1.

77 Commencement

- (1) The preceding provisions of this Act, and the Schedules to this Act, come into force in accordance with provision made by the Welsh Ministers by regulations.
- (2) This section and sections 78 to 82 come into force on the day this Act receives Royal Assent.
- (3) Regulations under subsection (1) may –
- (a) appoint different days for different purposes;
 - (b) make transitional, transitory or saving provision in connection with the coming into force of a provision of this Act.

78 Interpretation

- (1) In this Act –
- “act” (“*gweithredu*”) and “action” (“*camau gweithredu*”) include a failure to act (and related expressions must be construed accordingly);
 - “annual report” (“*adroddiad blynyddol*”) has the meaning given in paragraph 15 of Schedule 1;
 - “the Assembly” (“*y Cynulliad*”) means the National Assembly for Wales;
 - “care home” (“*cartref gofal*”) has the meaning given by section 62(2);
 - “care home provider” (“*darparwr gofal cartref*”) has the meaning given by section 62(3);
 - “co-opted member” (“*aelod cyfetholedig*”), in relation to an authority, means a person who is not a member of the authority but who –
 - (a) is a member of a committee or sub-committee of the authority, or
 - (b) is a member of, and represents the authority on, a joint committee on which the authority is represented or a sub-committee of such a committee,
 and who is entitled to vote on any question which falls to be decided at a meeting of the committee or sub-committee;
 - “domiciliary care” (“*gofal cartref*”) has the meaning given by section 63(2);

mae i “awdurdod rhestredig” (“*listed authority*”) yr ystyr a roddir yn adran 31;
 ystyr “blwyddyn ariannol” (“*financial year*”) yw’r 12 mis sy’n dod i ben ar 31 Mawrth;

mae i “cartref gofal” (“*care home*”) yr ystyr a roddir gan adran 62(2);

mae i “Comisiynydd Lleol” (“*Local Commissioner*”) yr ystyr a roddir yn adran 23(3) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1974 (p.7);

ystyr “corff gwasanaeth iechyd yng Nghymru” (“*Welsh health service body*”) yw –

- (a) Gweinidogion Cymru;
- (b) Bwrdd Iechyd Lleol;
- (c) ymddiriedolaeth GIG sy’n rheoli ysbyty neu sefydliad neu gyfleuster arall yng Nghymru;
- (d) Awdurdod Iechyd Arbennig nad yw’n cyflawni swyddogaethau yn Lloegr yn unig neu’n bennaf;

mae i “Cymru” (“*Wales*”) yr ystyr a roddir yn adran 158(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32);

ystyr “y Cynulliad” (“*the Assembly*”) yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

ystyr “darparwr annibynnol yng Nghymru” (“*independent provider in Wales*”) yw person, ar adeg y camau gweithredu sy’n destun ymchwiliad o dan Ran 3 o’r Ddeddf hon –

- (a) a oedd yn darparu gwasanaethau o unrhyw fath yng Nghymru o dan drefniadau gyda chorff gwasanaeth iechyd yng Nghymru neu ddarparwr gwasanaeth iechyd teulu yng Nghymru, a
- (b) nad oedd yn gorff gwasanaeth iechyd yng Nghymru neu yn ddarparwr gwasanaeth iechyd teulu yng Nghymru;

mae i “darparwr cartref gofal” (“*care home provider*”) yr ystyr a roddir gan adran 62(3);

mae i “darparwr gofal cartref” (“*domiciliary care provider*”) yr ystyr a roddir gan adran 63(3);

mae i “darparwr gofal lliniarol annibynnol” (“*independent palliative care provider*”) yr ystyr a roddir gan adran 64(3);

ystyr “darparwr gwasanaeth iechyd teulu yng Nghymru” (“*family health service provider in Wales*”) yw –

- (a) person a oedd, ar adeg y camau gweithredu sy’n destun ymchwiliad o dan Ran 3 o’r Ddeddf hon, yn darparu gwasanaethau o dan contract yr ymrwymwyd iddo gan y person hwnnw gyda Bwrdd Iechyd Lleol o dan adran 42 neu adran 57 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 (p.42);
- (b) person a oedd, ar yr adeg honno, wedi ymgymryd i ddarparu gwasanaethau fferyllol neu wasanaethau offthalmig cyffredinol yng Nghymru o dan y Ddeddf honno;

“domiciliary care provider” (*“darparwr gofal cartref”*) has the meaning given by section 63(3);

“enactment” (*“deddfiad”*) means an enactment (whenever enacted or made) which is, or contained in –

- (a) an Act or a Measure of the Assembly,
- (b) an Act of Parliament, or
- (c) subordinate legislation (within the meaning of section 21(1) of the Interpretation Act 1978 (c.30)) made under –
 - (i) an Act or a Measure of the Assembly, or
 - (ii) an Act of Parliament.

“extraordinary report” (*“adroddiad eithriadol”*) has the meaning given in paragraph 15 of Schedule 1;

“family health service provider in Wales” (*“darparwr gwasanaeth iechyd teulu yng Nghymru”*) means –

- (a) a person who, at the time of action which is the subject of investigation under Part 3 of this Act, provided services under a contract entered into by that person with a Local Health Board under section 42 or section 57 of the National Health Service (Wales) Act 2006 (c.42);
- (b) a person who, at that time, had undertaken to provide in Wales general ophthalmic services or pharmaceutical services under that Act;
- (c) an individual who, at that time, provided in Wales primary medical services or primary dental services in accordance with arrangements made under section 50 or 64 of that Act (except as an employee of, or otherwise on behalf of, a Welsh health service body or an independent provider in Wales);

“family health services” (*“gwasanaethau iechyd teulu”*) means services mentioned in any of paragraphs (a) to (c) of the definition of “family health service provider in Wales”;

“financial year” (*“blwyddyn ariannol”*) means the 12 months ending on 31 March;

“in writing” (*“yn ysgrifenedig”*) includes in electronic form;

“independent palliative care provider” (*“darparwr gofal lliniarol annibynnol”*) has the meaning given by section 64(3);

“independent provider in Wales” (*“darparwr annibynnol yng Nghymru”*) means a person who, at the time of action which is the subject of an investigation under Part 3 of this Act –

- (a) provided services of any kind in Wales under arrangements with a Welsh health service body or a family health service provider in Wales, and
- (b) was not a Welsh health service body or a family health service provider in Wales;

- (c) unigolyn a oedd, ar yr adeg honno, wedi darparu yng Nghymru wasanaethau meddygol sylfaenol neu wasanaethau deintyddol sylfaenol yn unol â threfniadau a wnaed o dan adran 50 neu 64 o'r Ddeddf honno (ac eithrio fel cyflogai i gorff gwasanaeth iechyd yng Nghymru neu ddarparwr annibynnol yng Nghymru neu fel arall ar ran corff gwasanaeth iechyd yng Nghymru neu ddarparwr annibynnol yng Nghymru);

ystyr "deddfiad" (*"enactment"*) yw deddfiad (pa bryd bynnag y'i deddfwyd neu y'i gwnaed) sy'n un o'r canlynol neu sydd wedi'i gynnwys mewn un o'r canlynol—

- (a) Deddf neu Fesur Cynulliad,
- (b) Deddf Seneddol, neu
- (c) is-ddeddfwriaeth (o fewn ystyr adran 21(1) o Ddeddf Dehongli 1978 (p.30)) a wneir o dan—
 - (i) Deddf neu Fesur Cynulliad, neu
 - (ii) Deddf Seneddol.

mae i "gofal cartref" (*"domiciliary care"*) yr ystyr a roddir gan adran 63(2);

mae i "gwasanaeth gofal lliniarol" (*"palliative care service"*) yr ystyr a roddir gan adran 64(2);

ystyr "gwasanaethau iechyd teulu" (*"family health services"*) yw gwasanaethau a grybwyllir yn unrhyw un neu ragor o baragraffau (a) i (c) o'r diffiniad o "darparwr gwasanaeth iechyd teulu yng Nghymru";

mae "gweithredu" (*"act"*) a "camau gweithredu" (*"action"*) yn cynnwys methiant i weithredu (a rhaid dehongli ymadroddion cysylltiedig yn unol â hynny);

ystyr "landlord cymdeithasol yng Nghymru" (*"social landlord in Wales"*) yw—

- (a) corff a oedd, ar adeg y camau gweithredu sy'n destun cwyn o dan y Ddeddf hon, wedi'i gofrestru'n landlord cymdeithasol yn y gofrestr a gedwir gan Weinidogion Cymru o dan adran 1 o Ddeddf Tai 1996 (p.52) (neu yn y gofrestr a gadwyd yn flaenorol o dan yr adran honno gan y Cynulliad a gyfansoddwyd gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (p.38), yr Ysgrifennydd Gwladol neu Tai Cymru);
- (b) unrhyw gorff arall a oedd, ar adeg y camau gweithredu sy'n destun cwyn o dan y Ddeddf hon, wedi'i gofrestru gyda Tai Cymru, yr Ysgrifennydd Gwladol, y Cynulliad a gyfansoddwyd gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (p.38) neu Weinidogion Cymru ac a oedd yn berchen ar anheddau a ariennir yn gyhoeddus neu'n rheoli anheddau o'r fath;

mae i "yr Ombwdsmon" (*"the Ombudsman"*) yr ystyr a roddir yn adran 2;

mae i "y person a dramgwyddwyd" (*"the person aggrieved"*) yn Rhan 3 yr ystyr a roddir yn adran 7(1)(a) ac yn Rhan 5 yr ystyr a roddir yn adran 47(1)(a);

ystyr "tribiwnlys perthnasol" (*"relevant tribunal"*) yw tribiwnlys (sy'n cynnwys tribiwnlys un person yn unig) a bennir gan Weinidogion Cymru drwy reoliadau;

o ran "ymchwiliad" (*"investigation"*)—

“investigation” (*“ymchwiliad”*) –

- (a) in relation to the Ombudsman, means an investigation under section 3, 4, 43 or 44 (and cognate expressions must be construed accordingly);
- (b) in relation to other persons, includes an examination, inquiry or review (and cognate expressions must be construed accordingly);

“listed authority” (*“awdurdod rhestredig”*) has the meaning given in section 31;

“local authority in Wales” (*“awdurdod lleol yng Nghymru”*) means a county council, county borough council or community council in Wales;

“Local Commissioner” (*“Comisiynydd Lleol”*) has the meaning given in section 23(3) of the Local Government Act 1974 (c.7);

“NHS trust” (*“Ymddiriedolaeth y GIG”*) has the same meaning as in the National Health Service (Wales) Act 2006 (c.42);

“the Ombudsman” (*“yr Ombwdsmon”*) has the meaning given in section 2;

“palliative care service” (*“gwasanaeth gofal lliniarol”*) has the meaning given by section 64(2);

“the person aggrieved” (*“y person a dramgwyddwyd”*) in Part 3 has the meaning given in section 7(1)(a) and in Part 5 has the meaning given in section 47(1)(a);

“publicly-funded dwelling” (*“annedd a ariennir yn gyhoeddus”*) means –

- (a) a dwelling which was provided by means of a grant under –
 - (i) section 18 of the Housing Act 1996 (c.52) (social housing grant), or
 - (ii) section 50 of the Housing Act 1988 (c.50), section 41 of the Housing Associations Act 1985 (c.69), or section 29 or 29A of the Housing Act 1974 (c.44) (housing association grant);
- (b) a dwelling which was acquired on a disposal by a public sector landlord (within the meaning of Part 1 of the Housing Act 1996 (c.52));

“relevant tribunal” (*“tribiwnlys perthnasol”*) means a tribunal (including a tribunal consisting of only one person) specified by regulations made by the Welsh Ministers;

“social landlord in Wales” (*“landlord cymdeithasol yng Nghymru”*) means –

- (a) a body which was at the time of action which is the subject of a complaint under this Act registered as a social landlord in the register maintained by the Welsh Ministers under section 1 of the Housing Act 1996 (c.52) (or in the register previously maintained under that section by the Assembly constituted by the Government of Wales Act 1998 (c.38), the Secretary of State or Housing for Wales);
- (b) any other body which at the time of action which is the subject of a complaint under this Act was registered with Housing for Wales, the Secretary of State, the Assembly constituted by the Government of Wales Act 1998 (c.38) or the Welsh Ministers and owned or managed publicly-funded dwellings;

- (a) ei ystyr mewn perthynas â'r Ombwdsmon yw ymchwiliad o dan adran 3, 4, 43 neu 44 (a rhaid dehongli ymadroddion cytras yn unol â hynny);
- (b) mewn perthynas â phersonau eraill, mae'n cynnwys archwiliad, ymchwiliad neu adolygiad (a rhaid dehongli ymadroddion cytras yn unol â hynny);

mae i "Ymddiriedolaeth y GIG" ("NHS trust") yr un ystyr ag a roddir yn Neddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 (p.42).

mae "yn ysgrifenedig" ("in writing") yn cynnwys ar ffurf electronig;

- (2) At ddibenion y diffiniad o "darparwr annibynnol yng Nghymru", mae trefniadau gyda Gweinidogion Cymru yn drefniadau gyda chorff gwasanaeth iechyd yng Nghymru dim ond i'r graddau eu bod yn cael eu gwneud wrth gyflawni swyddogaeth Gweinidogion Cymru sy'n ymwneud â'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol.
- (3) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau ddiwygio'r diffiniadau o "darparwr gwasanaeth iechyd teulu yng Nghymru", "darparwr annibynnol yng Nghymru" a "landlord cymdeithasol yng Nghymru".
- (4) Cyn gwneud rheoliadau o dan is-adran (1) neu (3), rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r cyfryw bersonau sy'n briodol yn eu barn hwy.
- (5) Ni chaniateir gwneud rheoliadau o dan is-adran (1) neu (3) oni bai bod drafft o'r offeryn statudol sy'n cynnwys y rheoliadau wedi ei osod gerbron y Cynulliad, ac wedi ei gymeradwyo drwy benderfyniad ganddo.
- (6) Mae adran 13 o Ddeddf Archwilio Cenedlaethol 1983 (p.44) (dehongli cyfeiriadau at y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus) yn gymwys at ddibenion y Ddeddf hon fel y mae'n gymwys at ddibenion y Ddeddf honno.
- (7) At ddibenion y Ddeddf hon, mae cyfeiriadau at gamau gweithredu a gymerwyd gan awdurdod rhestredig yn cynnwys camau gweithredu a gymerwyd gan—
 - (a) aelod, aelod cyfetholedig, pwyllgor neu is-bwyllgor o'r awdurdod sy'n gweithredu i gyflawni swyddogaethau'r awdurdod;
 - (b) swyddog neu aelod o staff yr awdurdod, pa un a yw'n gweithredu i gyflawni ei swyddogaethau ei hun neu swyddogaethau'r awdurdod;
 - (c) unrhyw berson arall sy'n gweithredu ar ran yr awdurdod.

79 Cyn-ddarparwyr gofal iechyd, cyn-landlordiaid cymdeithasol, cyn-ddarparwyr gofal cymdeithasol a chyn-ddarparwyr gofal lliniarol: addasiadau

- (1) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau ddarparu i'r Ddeddf hon fod yn gymwys gyda'r addasiadau a bennir yn y rheoliadau i bersonau sydd—
 - (a) yn gyn-ddarparwyr gwasanaeth iechyd teulu yng Nghymru;
 - (b) yn gyn-ddarparwyr annibynnol yng Nghymru;
 - (c) yn gyn-landlordiaid cymdeithasol yng Nghymru;
 - (d) yn gyn-ddarparwyr cartrefi gofal yng Nghymru;

“special report” (“*adroddiad arbennig*”) in Part 3 has the meaning given in section 28 and in Part 5 has the meaning given in section 60;

“Wales” (“*Cymru*”) has the meaning given in section 158(1) of the Government of Wales Act 2006 (c.32);

“Welsh health service body” (“*corff gwasanaeth iechyd yng Nghymru*”) means –

- (a) the Welsh Ministers;
 - (b) a Local Health Board;
 - (c) an NHS trust managing a hospital or other establishment or facility in Wales;
 - (d) a Special Health Authority not discharging functions only or mainly in England.
- (2) For the purposes of the definition of “independent provider in Wales”, arrangements with the Welsh Ministers are arrangements with a Welsh health service body only to the extent that they are made in the discharge of a function of the Welsh Ministers relating to the National Health Service.
- (3) The Welsh Ministers may by regulations amend the definitions of “family health service provider in Wales”, “independent provider in Wales” and “social landlord in Wales”.
- (4) Before making regulations under subsection (1) or (3), the Welsh Ministers must consult such persons as they think appropriate.
- (5) No regulations are to be made under subsection (1) or (3) unless a draft of the statutory instrument containing them has been laid before, and approved by a resolution of, the Assembly.
- (6) Section 13 of the National Audit Act 1983 (c.44) (interpretation of references to the Committee of Public Accounts) applies for the purposes of this Act as it applies for the purposes of that Act.
- (7) For the purposes of this Act, references to action taken by a listed authority include action taken by –
- (a) a member, co-opted member, committee or sub-committee of the authority acting in the discharge of functions of the authority;
 - (b) an officer or member of staff of the authority, whether acting in the discharge of their own functions or the functions of the authority;
 - (c) any other person acting on behalf of the authority.

